LOCAL GOVERNMENT BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

(P) JS
4010.5
(429.53)

# REVIEW OF DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS DRAFT PROPOSALS

## BOROUGH OF NEATH

## BWRDEISTREF NEDD

# AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL Y DOSBARTH CYNIGION DRAFFT

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

WELSH OFFICE LIBRARY
Class No. (p) JS 4010-5 (429.53)
Accession No. 81-1658
Please return or renew by CP 8/

LOCAL GOVERNMENT BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

# REVIEW OF DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS DRAFT PROPOSALS

## BOROUGH OF NEATH

## BWRDEISTREF NEDD

# AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL Y DOSBARTH CYNIGION DRAFFT

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

BWRDEISTREF NEDD

AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL Y DOSBARTH

CYNIGION DRAFFT

1. Yr ydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, wedi cwblhau rhan gyntaf yr arolwg o drefniadau etholiadol y dosbarth ar gyfer Bwrdeistref Nedd yn Sir Gorllewin Morgannwg ac yn cyflwyno'n Cynigion Drafft ar gyfer trefniadau etholiadol newydd yn y Fwrdeistref. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a anfonir atom ar y cynigion hynny cyn llunio'n cynigion terfynol a'u cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

2. Mae'n ofynnol, o dan Atodiad 10 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i ni wneud arolwg o drefniadau etholiadol rhyw ddosbarth cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi ei benderfyniad terfynol ar yr olaf o'r gorchmynion y bwriada eu gwneud ynglŷn â'r cymdeithasau yn y dosbarth hwnnw o ganlyniad i'r Arolwg Cymdeithas Arbennig. Mae adran 60 y Ddeddf yn gosod canllawiau'r drefniadaeth y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal yr arolwg, ac yr ydym wedi cydymffurfio â'r drefniadaeth hon a eglurir yn fanwl yn ein Hadroddiad Rhif 3, dyddiedig 2 Chwefror 1977.

3. Ar 16 Mehefin 1980, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei benderfyniad terfynol ar yr olaf o'r gorchmynion y bwriada eu gwneud o ganlyniad i'r Arolwg Cymdeithas Arbennig o Fwrdeistref Nedd. Yn unol â'r drefniadaeth a gyhoeddwyd gennym, gwnaethom ysgrifennu ar 31 Gorffennaf 1980 at Gyngor Bwrdeistref Nedd, Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, pob cyngor cymdeithas yn yr ardal, Aelod Seneddol yr etholaeth leol, cymdeithasau'r awdurdodau lleol a'r pleidiau gwleidyddol i ddweud wrthynt ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r arolwg ac i ofyn am eu sylwadau, gan gynnwys sylwadau ynglŷn â maint priodol y Cyngor Bwrdeistref. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cyngor Bwrdeistref roi gwybod i ni am nifer yr etholwyr ym mhob cymdeithas a ward gymdeithas newydd ac amcangyfrif nifer yr etholwyr ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn ym 1985. Gwnaethom hefyd gyhoeddi mewn papurau newydd lleol yn y Fwrdeistref ein bwriad i gynnal yr arolwg.

4. Mae'n rhaid i ni baratoi'n trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw ddosbarth yn unol â darpariaethau adran 78 Deddf Llywodraeth Leol 1972, y



LOCAL GOVERNMENT BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

THE BOROUGH OF NEATH

REVIEW OF DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS

DRAFT PROPOSALS

1. We, the Local Government Boundary Commission for Wales, have completed the first stage of the review of the district electoral arrangements for the Borough of Neath in the County of West Glamorgan and present our Draft Proposals for new electoral arrangements within the Borough. We will consider carefully all representations made to us in respect of them before formulating our final proposals and submitting them to the Secretary of State for the Home Department.

2. We are required by Schedule 10 to the Local Government Act 1972, to review the electoral arrangements of a district as soon as practicable after the Secretary of State has announced his final decision on the last of the orders he proposes to make in respect of the communities in that district consequent upon the Special Community Review. Section 60 of the Act lays down procedural guidelines which are to be followed in carrying out the review, and we have followed this procedure which is explained in detail in our Report No 3, dated 2 February 1977.

3. The Secretary of State for Wales announced on 16 June 1980 his final decision on the last of the orders he proposes to make consequent on the Special Community Review of the Borough of Neath. We, in accordance with our published procedure, wrote on 31 July 1980 to Neath Borough Council, West Glamorgan County Council, all community councils in the area, the Member of Parliament for the local constituency, the local authority associations and political parties informing them of our intention to proceed with the review and requesting their views, including views on the appropriate size of the Borough Council. In addition we asked the Borough Council to provide us with the number of electors in each new community and community ward and the estimated number of electors for each of these areas in 1985. We also published our intention to conduct the review in local newspapers circulating in the Borough.

4. We are obliged to prepare our electoral arrangements for a district in accordance with the provisions of section 78 of the Local Government Act 1972,

mae is-adran (2) ohoni'n ei gwneud yn ofynnol i ni, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, gydymffurfio â'r rheolau a nodwyd yn Atodiad 11 y Ddeddf. Mae'r rheolau hyn (paragraff 3(2) yr Atodiad) yn pennu, o ystyried unrhyw newid yn nifer neu ddosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol mewn dosbarth sy'n debyg o ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd ar ôl arolwg:-

a. y dylai nifer yr etholwyr llywodraeth leol, o'i gymharu â nifer y cynghorwyr a etholir, fod yr un fath, neu mor agos â phosibl, ym mhob ward yn y dosbarth;

b. mewn dosbarth, y dylai pob ward mewn cymdeithas sydd â chyngor cymdeithas (p'un ai ar wahân neu'n gyngor cyffredin) ddod yn gyfan gwbl o fewn un ward yn y dosbarth;

c. mewn dosbarth, y dylai pob cymdeithas sydd heb ei rhannu'n wardiau cymdeithas ddod yn gyfan gwbl o fewn un ward yn y dosbarth.

Yn unol â'r rheolau hyn, mae hefyd yn ofynnol i ni roi sylw (a) i'r angen am bennu ffiniau sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod; a (b) i unrhyw gysylltiadau lleol a gâi eu torri wrth bennu unrhyw ffin arbennig. Gwnaethom ystyried y ddwy ffactor hyn wrth ddiffinio'r cymdeithasau a'r wardiau cymdeithas newydd yn ystod Arolwg Cymdeithas Arbennig y Fwrdeistref.

5. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â maint cynghorau dosbarth. Yn ein Hadroddiad Rhif 3 (paragraff 13, o dan y pennawd "Maint y Cynghorau"), tynnwyd sylw at yr amrywiaeth fawr yn y gynrychiolaeth ar lefel y dosbarth yng Nghymru, a dywedwyd mai'n barn ar y pryd oedd fod yr amrywiaeth yn fwy nag yr oedd eisiau iddi fod ond mai anaddas fyddai ceisio safoni lefel y gynrychiolaeth. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd i ni ynglŷn â maint Cyngor Bwrdeistref newydd Nedd yn awgrymu na ddylai'r Cyngor gael llai na'r 33 aelod presennol. Yr ydym wedi bwrw ymlaen ar y sail fod maint y cyngor presennol fwy neu lai'n gywir ar gyfer Bwrdeistref Nedd a'n prif nod fu pennu nifer y cynghorwyr er mwyn sicrhau lefel gyson o gynrychiolaeth, gan gymryd i ystyriaeth amcangyfrifon o nifer yr etholwyr ymhen pum mlynedd a chan weithio o fewn cyfyngiadau Atodiad 11.



which requires us by subsection (2), to comply, as far as is reasonably practicable, with the rules set out in Schedule 11 to the Act. These rules, (paragraphs 3(2) of the Schedule), require that, having regard to any change in the number or distribution of local government electors of a district likely to take place within the period of five years immediately following a review:-

a. the ratio of the number of local government electors to the number of councillors to be elected shall be, as nearly as may be, the same in every ward of the district;

b. in a district every ward of a community having a community council (whether separate or common) shall lie wholly within a single ward of the district;

c. in a district every community which is not divided into community wards shall lie wholly within a single ward of the district.

Subject to these rules, we are required also to have regard to (a) the desirability of fixing boundaries which are and will remain easily identifiable and (b) any local ties which would be broken by the fixing of any particular boundary. We took account of these two factors when we defined the new communities and community wards during the Special Community Review of the Borough.

5. The Act contains no provisions as to the size of district councils. In our Report No 3 (paragraph 13 headed "Size of Council") we drew attention to the considerable disparity in representation at district level in Wales, and said that our provisional view was that the range of differences was greater than it need be but that it would be inappropriate to try to establish a standardised scale of representation. The representations made to us in relation to the size of the new Neath Borough Council suggest that the Council should not have less than the present number of 33 members. We have proceeded on the basis that the size of the present council is approximately right for the Borough of Neath and our main aim has been to distribute the representation in such a way as to achieve good parity of representation, taking into account estimates of the size of the electorate five years hence, and working within the constraints imposed by Schedule 11.

6. Mae'n sicr y bydd Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg a'r Cyngor Bwrdeistref yn ystyried effaith trefniadau etholiadau'r dosbarth ar gynllun etholiadol y Cyngor Sir. Fe'n rhwystrir gan baragraff 13 Atodiad 10 y Ddeddf rhag gwneud arolwg o drefniadau etholiadol y gwahanol siroedd tan ar ôl gwneud y gorchymyn olaf ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y dosbarthau mewn sir. Mae'r rheolau ar gyfer trefniadau etholiadol y siroedd, a geir ym mharagraff 1 Atodiad 11 y Ddeddf, yn debyg iawn i'r rhai ar gyfer trefniadau etholiadol y dosbarthau. Ond mae effaith y cyfyngiadau'n fwy llym o lawer oherwydd darpariaethau adran 25(2)(a) y Ddeddf, sy'n pennu y dylai pob rhanbarth etholiadol o fewn y siroedd ethol un cynghorydd yn unig. Ni welwn sut y gellir llunio trefniadau etholiadol doeth a theg i'r siroedd mewn rhai rhannau o Gymru drwy gydymffurfio â'r holl gyfyngiadau a nodwyd gan y Ddeddf, ac ymddengys yn anochel y bydd rhaid i ni ddweud o dan rai amgylchiadau nad yw'n rhesymol ymarferol i gydymffurfio â darpariaethau paragraff 1(2)(a) Atodiad 11 y Ddeddf. Byddwn yn diffinio nifer o ranbarthau etholiadol sirol mewn rhai o'r cymdeithasau mwyaf yng Nghymru na rennir mohonynt yn wardiau cymdeithas, er y gall cymdeithasau o'r fath ffurfio ward ddosbarth. Fodd bynnag, ein nod fydd sicrhau y caiff pob dosbarth mewn sir ei gynrychioli'n briodol ar y cyngor sir.

7. Mae'n annhebyg y cwyd problemau o'r math hwn yn yr arolwg etholiadol o Sir Gorllewin Morgannwg i'r graddau y mae'n effeithio ar Fwrdeistref Nedd. Ond byddem yn ddiolchgar pe bai'r Cyngor Sir a'r Cyngor Bwrdeistref yn ystyried y Cynigion Drafft hyn yn ôl fel y gallent effeithio ar arolwg etholiadol y Sir.

8. Cynigiwn y dylai'r Fwrdeistref gael cyngor â 34 aelod a 22 ward wedi'u seilio ar fframwaith newydd y cymdeithasau. Ceir disgrifiad bras o'r wardiau arfaethedig yn Atodiad A a dangosir eu ffiniau, sy'n cydredeg â ffiniau'r cymdeithasau a'r wardiau cymdeithas newydd, gan linellau gwyrdd di-dor ar y map a roddwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Nedd, Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg a Swyddfeydd y Comisiwn yng Nghaerdydd. Er mwyn eu cymharu, nodir y trefniadau etholiadol presennol ar gyfer y Fwrdeistref yn Atodiad B.

<u>Crynodeb o'r Sylwadau a dderbyniwyd</u>

9. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Nedd fod maint presennol y Cyngor o 33 aelod fwy neu lai'n gywir yn eu barn hwy, ond na fyddent yn gwrthwynebu newid bach



6. No doubt West Glamorgan County Council and the Borough Council will be considering the effect of the district electoral arrangements on the County Council electoral scheme. We are precluded by paragraph 13 of Schedule 10 to the Act from reviewing electoral arrangements for counties until after the last order has been made in respect of the electoral arrangements for the districts in a county. The rules for county electoral arrangements contained in paragraph 1 of Schedule 11 to the Act are very similar to those for district electoral arrangements. However the constraints are made far more rigid by the provisions of section 25(2)(a) of the Act, which requires that each county electoral division should return one councillor only. We cannot see how, in certain parts of Wales sensible and fair county electoral arrangements can be devised by complying with all the constraints imposed by the Act, and it seems inevitable that we will have to say in some circumstances that it is not reasonably practicable to comply with the provisions of paragraph 1(2)(a) of Schedule 11 to the Act. In some of the larger communities in Wales which are not divided into community wards, we will define a number of county electoral divisions even though such communities may form a district ward. However it will be our aim to ensure that each district in a county is properly represented on the county council.

7. It seems unlikely that problems of this nature will arise in the electoral review of the County of West Glamorgan in so far as it affects the Borough of Neath. But we will be grateful if both the County Council and the Borough Council would consider these Draft Proposals as they may affect the County electoral review.

8. We propose that the Borough should have a council of 34 members and 22 wards based on the new community structure. The proposed wards are described briefly in Schedule A and their boundaries which are also the new community and community ward boundaries, are shown by continuous green lines on the map placed on deposit at the Offices of Neath Borough Council, West Glamorgan County Council and the Offices of the Commission in Cardiff. For the purposes of comparison the present electoral arrangements for the Borough are given in Schedule B.

<u>Summary of Representations received</u>

9. Neath Borough Council stated that in their view the present size of the Council of 33 members was about right, but they would not object to a minor

yn yr aelodaeth pe bai rhaid wrth un er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys rhwng y wardiau. Dangosai eu ffigurau fod nifer yr etholwyr wedi aros yn gyson, gyda'r unig newidiadau arwyddocaol yn Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt yng Nghymdeithas Castell-nedd lle'r oedd ystadau preswyl preifat sylweddol yn cael eu codi bellach - datblygiad a fyddai, yn ôl pob tebyg, wedi'i gwblhau erbyn 1985. Yn yr un modd, yn Ward De Bryn-coch yng Nghymdeithas Blaenhonddan y ceid yr unig ddarn mawr o dir â chaniatâd cynllunio lle y gallai gwaith gychwyn cyn 1985 a thrwy hynny, efallai, effeithio ar nifer yr etholwyr.

10. Ni chawsom gynllun ffurfiol gan y Cyngor Bwrdeistref. Cyflwynodd Clerc a Phrif Swyddog y Fwrdeistref adroddiad rhagarweiniol i Bwyllgor Ffiniau'r Cyngor. Yna, cyflwynodd Grŵp Llafur Cyngor Bwrdeistref Nedd i ni gynllun etholiadol y cytunwyd arno, meddid, gan y pleidiau gwleidyddol eraill ar y Cyngor Bwrdeistref, ynghyd â chopi o adroddiad y Clerc i Bwyllgor Ffiniau'r Cyngor.

11. Ni wnaeth Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg unrhyw sylwadau ar faint y Cyngor Bwrdeistref. Barn yr Aelod Sirol ar gyfer ardaloedd Llanilltud Fach, Gnoll, Cimla Isaf a Glannant oedd y dylai pob ardal gael un cynghorydd dosbarth, am y cynrychiolid yr ardal fawr hon ar y pryd gan bedwar cynghorydd dosbarth ac na allai'r etholwyr, felly, uniaethu'u hunain ag un cynghorydd arbennig. Yn ogystal, cyflwynodd y Cyngor Sir, er gwybodaeth, nodyn ar ddatblygiadau tai yn ardal Castell-nedd yn y dyfodol, a gadarnhâi sylwadau'r Cyngor Bwrdeistref.

12. Yn eu sylwadau hwy, dywedodd Grŵp Plaid Lafur Cyngor Bwrdeistref Nedd eu bod, wrth benderfynu'r pwyntiau yr oeddent am eu gwneud, wedi cadw mewn cof Adroddiad Rhif 3 y Comisiwn, Atodiad B, a gynhwysai'r rheolau y dylid eu dilyn wrth ystyried trefniadau etholiadol ar gyfer dosbarthau. Dywedent nad oedd cynigion y Clerc ar gyfer Wardiau Gogledd a De Tref Castell-nedd a Chymdeithas Llansawel yn cydnabod bodolaeth cymdeithasau yn yr ardal, a'u bod wedi'u seilio'n hytrach ar awydd am daclusrwydd mathemategol. Methai'r rhain â chymryd i ystyriaeth:-

i. realiti ffyrdd Cwm Afan/Cimla fel llinellau rhannu rhwng cymdeithasau;



adjustment in membership if this was required for the purpose of achieving a proper balance of ward representation. Their calculations showed that the electorate was constant, the only significant changes being in the Cefn Saeson and Crynallt Wards of the Community of Neath, where significant private residential estates were now under construction and would in all probability be completed by 1985. Similarly the Bryncoch South Ward of the Community of Blaenhonddan contained the only large area of land with planning permission where work might start before 1985 and therefore might affect the size of electorate.

10. The Borough Council did not submit a formal scheme to us. The Clerk and Chief Officer of the Borough presented a preliminary report to the Boundaries Committee of the Council. The Neath Borough Council Labour Group then submitted an electoral scheme to us, which, they said, had the agreement of the other political parties on the Borough Council and this was accompanied by a copy of the Clerk's report to the Boundaries Committee of the Council.

11. West Glamorgan County Council made no observations on the size of the Borough Council. The view taken by the County Member for the Llantwit, Gnoll, Lower Cimla and Glannant areas was that each area should have one district councillor since this large area was at present represented by four district councillors and the electorate were therefore unable to identify themselves with one councillor. The County Council also submitted, for information, a note on future housing development in the Neath area, which confirmed the observations of the Borough Council.

12. In their submission, the Neath Borough Council Labour Party Group said that in determining their comments they had had regard to the Commission's Report No 3, Appendix B, which contained the rules to be observed in considering district electoral arrangements. They said that the Clerk's proposals for the North and South Wards of Neath Town and for the Community of Briton Ferry did not recognise the existence of communities within the area, and were based rather on a desire for arithmetical neatness. These failed to take into account:-

i. the reality of the Afan Valley/Cimla Roads as a community dividing line,

ii. y gellid cyfeirio bron yn ddiwahân at yr un ardal fel "Penrhiwtyn" neu "Melincryddan". Dywedent mai cyfuno'r ddwy ward gymdeithas yn un ward ddosbarth oedd yr unig weithred a ystyriai gysylltiadau cymuned;

iii. nad oedd yr etholwyr a drigai ym Mhenrhiwtyn yn ystyried eu hunain yn rhan o Gymdeithas Llansawel. Dywedent y cydnabyddid hyn gan y Comisiwn yn yr Arolwg Cymdeithas Arbennig a gynigiai gymdeithas ar wahân i Lansawel, heb gynnwys Penrhiwtyn.

Ychwanegent fod un aelod o Ward y Gogledd ar y pryd wedi cytuno ag awgrym y Clerc y dylid cyfuno Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt gan mai dyna'r berthynas gywir.

13. Dywedai Grŵp y Blaid Lafur mai barn yr aelodau lleol oedd na ddylid cyfuno Dulais ac Onllwyn at ddibenion etholiadau dosbarth. Gwahanwyd yr ardaloedd hyn at ddibenion cyngor cymdeithas ac yr oedd y ddwy gymdeithas yn wahanol a phlwyfol iawn yn eu hagwedd at faterion llywodraeth leol. Gwrthwynebai'r Grŵp yr awgrym y dylid cyfuno Ward Gogledd Coed-ffranc a Dyffryn Clydach gan nad oedd unrhyw berthynas rhwng yr ardaloedd hyn, meddent, ac nad oedd cynrychiolaeth o un cynghorydd dosbarth yn addas oherwydd y ddaearyddiaeth leol. Anogent, felly, gynrychiolaeth ar wahân ar gyfer Dyffryn Clydach, ardal a fyddai'n parhau i fod â'i chyngor cymdeithas ei hun. Gofynnent hefyd am i Wardiau Gogledd a De Cymdeithas Blaenhonddan gael aros yn un ward at ddibenion etholiadau dosbarth, ac i bentref Blaen-gwrach gael ei gynrychioli ar wahân a pheidio â chael ei gyfuno â Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Glyn-nedd oherwydd nad oedd unrhyw berthynas ddaearyddol rhwng yr ardaloedd hyn.

Asesiad

14. Dywedodd y Cyngor Bwrdeistref fod maint y Cyngor o 33 aelod fwy neu lai'n iawn, er na fyddent yn gwrthwynebu newid bach yn yr aelodaeth er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys. Aethom ymlaen ar y sail honno a chynigiwn bellach gyngor â 34 aelod yn cynrychioli 22 ward.



ii. that Penrhiwtyn and Melyncrythan were "almost interchangeable as indicators of location ". They said that joining the two community wards into one district ward was the only action that took account of "community" affinity;

iii. that the electorate living in Penrhiwtyn did not consider themselves part of the Community of Briton Ferry. They said that this was recognised by the Commission in the Special Community Review which proposed a separate Community for Briton Ferry which excluded Penrhiwtyn.

They added that one member of the existing North Ward agreed with the Clerk's suggestion that the Cefn Saeson and Crynallt Wards should be merged because this was the correct affinity.

13. The Labour Party Group said that it was the view of the local members that Dylais and Onllwyn should not be merged for district electoral purposes. These areas had been separated for community council purposes and the two communities were very distinct and parochial in their attitude to local government affairs. The Group opposed the suggestion that the North Ward of Coedffranc should be merged with Dyffryn Clydach since they said that there was no affinity between these areas and the geography did not lend itself to be covered by one district councillor. They therefore urged separate representation for Dyffryn Clydach, an area that would continue to have its own community council. They also requested that the North and South Community Wards of the Community of Blaenhonddan should remain as one ward for district electoral purposes and that the village of Blaengwrach should be separately represented and not merged with the West Central Ward of the Community of Glynneath because there was no geographical affinity between these areas.

Assessment

14. The Borough Council said that the size of the council of 33 members was about right, although they would not object to a minor adjustment of membership in the interests of parity of representation. We have proceeded on that basis and now propose a council of 34 members representing 22 wards.

15. Gwnaethom ystyried posibilrwydd gwneud Cymdeithasau Dulais ac Onllwyn yn wardiau dosbarth ar wahân, pob un wedi'i chynrychioli gan un cynghorydd, ond credem fod hyn yn anfoddhaol oherwydd yr amcangyfrifid y byddai 1000 o etholwyr yng Nghymdeithas Onllwyn ym 1985 ac y byddai ganddi hawl i 0.65 cynghorydd, tra byddai Cymdeithas Dulais, yr amcangyfrifid y byddai 1900 o etholwyr yno ym 1985 a chanddi hawl i 1.24 cynghorydd, yn dal â'r un gynrychiolaeth, sef un cynghorydd dosbarth, gyda bron dwywaith cymaint o etholwyr. Teimlwn, felly, y dylai Cymdeithasau Dulais ac Onllwyn ffurfio un ward ddosbarth.

16. Rhoesom ystyriaeth hefyd i'r cynnig y dylai Cymdeithas Blaen-gwrach ffurfio ward ddosbarth unigol ond eto fe gredem fod hyn yn anfoddhaol: oherwydd yr amcangyfrifid y byddai yno 950 o etholwyr ym 1985, ni fyddai ganddi hawl ond i 0.62 cynghorydd. Mae mwyafrif etholwyr y gymdeithas hon yn byw yn agos i Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Glyn-nedd. Er bod y ward hon ar yr ochr arall i'r rheilffordd, mae'n anodd derbyn nad oes yna unrhyw berthynas rhwng y ddwy ardal. Cynigiwn, felly, y dylai Cymdeithas Blaen-gwrach a Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Glyn-nedd ffurfio un ward ddosbarth.

17. Er na roes y Grŵp Llafur unrhyw resymau yn cefnogi eu hawgrym y dylai Wardiau Gogledd Bryn-coch a De Bryn-coch yng Nghymdeithas Blaenhonddan aros yn un ward ddosbarth, dywedodd Clerc Cyngor Bwrdeistref Nedd y byddai'r datblygiad tai yn Ward De Bryn-coch yn ôl pob tebyg wedi'i gwblhau erbyn 1985. Ystyriwn y dylai'r ardaloedd hyn gael eu cynrychioli ar wahân ar y Cyngor Bwrdeistref yn hytrach na chael eu cyfuno i ffurfio'r hyn a fyddai'r ward ddosbarth fwyaf, ac felly cynigiwn Ward De Bryn-coch wedi'i chynrychioli gan ddau gynghorydd a Ward Gogledd Bryn-coch wedi'i chynrychioli gan un cynghorydd.

18. Derbyniwn farn y Grŵp Llafur y dylai Cymdeithas Dyffryn Clydach ffurfio ward ddosbarth fel ar hyn o bryd oherwydd nad oes yna gysylltiad â Ward y Gogledd yng Nghymdeithas Coed-ffranc gerllaw. O ganlyniad, cynigiwn y dylai Ward y Gogledd yng Nghymdeithas Coed-ffranc ffurfio ward ddosbarth ar wahân. Gwnaethom ystyried, fodd bynnag, bosibilrwydd ffurfio un ward ddosbarth o'r



15. We considered the possibility of making the Communities of Dylais and Onllwyn separate district wards each represented by one councillor, but thought this to be undesirable because the Community of Onllwyn, with an estimated electorate of 1000 in 1985, would have a councillor entitlement of 0.65 in 1985, whereas the Community of Dylais, with an estimated electorate of 1900 in 1985 and a councillor entitlement of 1.24 would have the same representation of one district councillor with almost double the electorate. We therefore consider that the Communities of Dylais and Onllwyn should form one district ward.

16. We also gave consideration to the proposal that the Community of Blaengwrach should form a single district ward, but again thought this to be undesirable because, with an estimated electorate of 950 in 1985, its entitlement would be only 0.62 councillors. The majority of the electorate of this community live in close proximity to the West Central Ward of the Community of Glynneath. Although this ward is on the other side of the railway line, it is difficult to accept that there is no affinity between these two areas. We, therefore, propose that the Community of Blaengwrach and the West Central Ward of the Community of Glynneath should form one district ward.

17. Although the Labour Group did not provide any supporting reasons for their suggestion that Bryncoch North and Bryncoch South Wards of the Community of Blaenhonddan should remain as one district ward, the Clerk of Neath Borough Council stated that there was every likelihood that the housing development in the Bryncoch South Ward would be completed by 1985. We consider that these areas should be separately represented on the Borough Council rather than be amalgamated to form what would be the largest district ward and therefore propose a Bryncoch South Ward represented by two councillors and a Bryncoch North Ward represented by one councillor.

18. We accept the Labour Group's view that the Community of Dyffryn Clydach should form a district ward as at present because there is no affinity with the neighbouring North Ward of the Community of Coedffranc. In consequence, we propose that the North Ward of the Community of Coedffranc should form a separate district ward. We did, however, consider the possibility of the

pedair ward arall yng Nghymdeithas Coed-ffranc ond ymddengys y byddai'n well pe bai'r wardiau dosbarth yn llai er mwyn i bob ardal gael ei chynrychioli ar y Cyngor Bwrdeistref. Cynigiwn, felly, y dylai Ward y Canol Dwyreiniol a Ward y Canol ffurfio un ward ddosbarth, ac y dylai Wardiau'r Gorllewin a'r Canol Gorllewinol ffurfio ward ddosbarth arall.

19. Gwnaethom ystyried cynnig y Grŵp Llafur y dylai Cymdeithas Llansawel gael dwy ward ddosbarth er mwyn darparu cynrychiolaeth ddosbarth ar wahân i Gymdeithas Castell-nedd. Derbyniwn eu cynnig y dylai Wardiau Cymdeithas Cwrt Sart a Chraigydarren ffurfio un ward ddosbarth, ac y dylai Wardiau Cymdeithas Brynhyfryd a Shelone Wood ffurfio ward ddosbarth arall.

20. Er bod y Grŵp Llafur wedi cynnig y dylai Wardiau Crynallt a Chefnsaeson yng Nghymdeithas Castell-nedd fod yn wardiau dosbarth ar wahân, derbyniwn y farn a fynegwyd gan aelod o'r Ward Ogleddol bresennol y dylai'r ddwy ardal hyn ffurfio un ward ddosbarth gan eu bod yn dwyn perthynas â'i gilydd. Cred yr Aelod o'r Cyngor Sir ar gyfer ardaloedd Llanilltud Fach, Gnoll, Cimla Isaf a Glannant y dylai pob un o'r ardaloedd hyn gael cynrychiolaeth ar wahân. Byddai ffurfio un ward ddosbarth o bob ardal yng Nghymdeithas Castell-nedd, gydag un cynghorydd bob un, yn achosi cryn anghyfartaledd rhwng y wardiau o ran y gymhareb etholwyr:cynghorwyr. Cynigiwn, felly, y dylid ffurfio pedair ward ddosbarth ar wahân yng Nghymdeithas Castell-nedd yn cynnwys (a) Wardiau Cymdeithas Penrhiwtyn a Melincryddan, (b) Wardiau Cymdeithas y Castell a Llanilltud Fach, (c) Wardiau Cymdeithas Mount Pleasant a Gnoll a (d) Wardiau Cymdeithas Cefnsaeson a Chrynallt.

21. Gwnaethom ystyried posibilrwydd uno Cymdeithas Pelenna â chymdeithas gyfagos at ddibenion etholiadau dosbarth. Fodd bynnag, oherwydd daearyddiaeth yr ardal mae hyn yn anymarferol a chynigiwn y dylai'r gymdeithas ffurfio un ward ddosbarth.

22. Gwnaethom awgrymu enwau ar gyfer yr holl wardiau dosbarth yn seiliedig ar enwau'r wardiau cymdeithas neu'r cymdeithasau a gynhwysid o fewn y wardiau dosbarth hynny, ac fe nodir y rhain yn Atodiadau A a B. Ond byddem yn croesawu unrhyw gynnig arall ynglŷn ag enwau, yn enwedig os byddent yn fwy cyffredinol dderbyniol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

23. Mae'r cynllun etholiadol drafft hwn yn cynnwys ein barn ragarweiniol ar



four remaining wards of the Community of Coedffranc forming one district ward but it seems best if the district wards were smaller so that each area is represented on the Borough Council. We, therefore, propose that the East Central and Central Wards should form one district ward and the West and West Central Wards another district ward.

19. We considered the Labour Group's proposal that the Community of Briton Ferry should have two district wards to provide separate district representation from the Community of Neath. We accept their proposal that Cwrt Sart and Craig-y-darren Community Wards should form one district ward and that the Brynhyfryd and Shelone Wood Community Wards should form another district ward.

20. Although the Labour Group proposed that the Crynallt and Cefn Saeson Wards of the Community of Neath should be separate district wards, we accept the view expressed by a member of the present North Ward that these two areas should form one district ward because there is an affinity between these two areas. The County Council Member for the areas of Llantwit, Gnoll, Lower Cimla and Glannant takes the view that these areas should each have separate representation. To form one district ward of each area in the Community of Neath, with one councillor each, would cause considerable inequality between the wards. We therefore propose that four separate district wards should be formed in the Community of Neath comprising (a) the Community Wards of Penrhiwtyn and Melyncrythan, (b) the Community Wards of Castle and Llantwit, (c) the Community Wards of Mount Pleasant and Gnoll and (d) the Community Wards of Cefn Saeson and Crynallt.

21. We considered the possibility of merging the Community of Pelenna with a neighbouring community for district electoral purposes. However, because of the topography of the area this is impracticable and we propose that the community should form one district ward.

22. We have suggested names for each district ward based on the name of the community ward, community or communities that are included within the district ward and these are given in Schedules A and B. However we would welcome any other proposal for names, particularly if they would be more generally acceptable in the localities concerned.

23. This draft electoral scheme comprises our preliminary views on new

drefniadau etholiadol newydd y dosbarth ar gyfer Bwrdeistref Nedd, a byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynigion hyn.

24. Hoffem fynegi'n diolch i Gyngor Bwrdeistref Nedd, Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg a phawb arall sydd wedi cyflwyno sylwadau i ni yn y rhan hon o'r arolwg.

25. Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y cynllun drafft hwn at Yr Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, Queens Court, Plymouth Street, Caerdydd CF1 4DA, erbyn 26 Mehefin 1981.

26 Mawrth 1981

LLOFNODWYD

ELISABETH CRAWSHAY (Cadeirydd)

IDRIS DAVEY (Dirprwy Cadeirydd)

WILLIAM COLEMAN

D W C MORGAN

R T D WILLIAMS

D T M DAVIES (Ysgrifennydd)



district electoral arrangements for the Borough of Neath, and we shall welcome any representations in respect of these proposals.

24. We wish to express our gratitude to Neath Borough Council, West Glamorgan County Council and to all others who have made representations to us at this stage of the review.

25. All observations on this draft scheme should be sent to The Secretary, Local Government Boundary Commission for Wales, Queens Court, Plymouth Street, Cardiff CF1 4DA not later than 26 June 1981.

26 March 1981

SIGNED

ELISABETH CRAWSHAY (Chairman)

IDRIS DAVEY (Deputy Chairman)

WILLIAM COLEMAN

D W C MORGAN

R T D WILLIAMS

D T M DAVIES (Secretary)

BWRDEISTREF NEDD

ATODIAD A

FFRAMWAITH ARFAETHEDIG Y CYNGOR BWRDEISTREF

| WARD | | | 1980 | | | | 1985 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RHIF 1 | ENW 2 | DISGRIFIAD 3 | NIFER Y CYNGHORWYR 4 | ETHOLWYR 5 | ETHOLWYR: CYNGHORWYR 6 | CYNRYCHIOLWYR Y MAE HAWL IDDYNT 7 | AMCANGYFRIF O'R ETHOLWYR 8 | ETHOLWYR: CYNGHORWYR 9 | CYNRYCHIOLWYR Y MAE HAWL IDDYNT 10 |
| 1 | Y CREUNANT | Cymdeithas Y Creunant | 1 | 1590 | 1590 | 1.05 | 1600 | 1600 | 1.05 |
| 2 | DULAIS | Cymdeithasau Dulais ac Onllwyn | 2 | 3035 | 1518 | 2.00 | 2900 | 1480 | 1.90 |
| 3 | GLYN-NEDD | Wardiau'r Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin yng Nghymdeithas Glyn-nedd | 2 | 2892 | 1446 | 1.91 | 3050 | 1525 | 1.99 |
| 4 | BLAEN-GWRACH | Cymdeithas Blaen-gwrach a Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Glyn-nedd | 1 | 1857 | 1857 | 1.23 | 1850 | 1850 | 1.21 |
| 5 | Y CLUN | Cymdeithas Y Clun a Ward y De yng Nghymdeithas Resolfen | 1 | 1334 | 1334 | 0.88 | 1500 | 1500 | 0.98 |
| 6 | RESOLFEN | Ward Abergarwed a Ward y Gogledd yng Nghymdeithas Resolfen | 1 | 1462 | 1462 | 0.97 | 1390 | 1390 | 0.91 |
| 7 | PELENNA | Cymdeithas Pelenna | 1 | 1093 | 1093 | 0.72 | 1100 | 1100 | 0.72 |
| 8 | TONNA | Cymdeithas Tonna | 1 | 1674 | 1674 | 1.11 | 1700 | 1700 | 1.11 |
| 9 | DE BRYN-COCH | Ward De Bryn-coch yng Nghymdeithas Blaenhonddan | 2 | 2877 | 1439 | 1.90 | 3500 | 1750 | 2.29 |
| 10 | GOGLEDD BRYN-COCH | Ward Gogledd Bryn-coch yng Nghymdeithas Blaenhonddan | 1 | 1948 | 1948 | 1.29 | 2000 | 2000 | 1.31 |
| 11 | ABERDULAIS | Wardiau Aberdulais a Chil-ffriw yng Nghymdeithas Blaenhonddan | 1 | 1458 | 1458 | 0.96 | 1600 | 1600 | 1.05 |
| 12 | LLANGATWG | Ward Llangatwg yng Nghymdeithas Blaenhonddan | 1 | 1185 | 1185 | 0.78 | 1200 | 1200 | 0.78 |
| 13 | DYFFRYN | Cymdeithas Dyffryn Clydach | 1 | 2191 | 2191 | 1.45 | 2350 | 2350 | 1.54 |

**NODER: Ceir nifer y cynrychiolwyr y mae hawl iddynt (colofnau 7 a 10) trwy rannu cyfanswm etholwyr y ward â nifer yr etholwyr (ar gyfartaledd) i bob cynghorydd yn y Fwrdeistref.**

BOROUGH OF NEATH

SCHEDULE A

PROPOSED BOROUGH COUNCIL STRUCTURE

| WARD | | | 1980 | | | | 1985 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NO 1 | NAME 2 | DESCRIPTION 3 | NO OF COUNCILLORS 4 | ELECTORATE 5 | ELECTORS PER COUNCILLOR 6 | COUNCILLOR ENTITLEMENT 7 | ESTIMATED ELECTORATE 8 | ELECTORS PER COUNCILLOR 9 | COUNCILLOR ENTITLEMENT 10 |
| 1 | CRYNANT | The Community of Crynant | 1 | 1590 | 1590 | 1.05 | 1600 | 1600 | 1.05 |
| 2 | DYLAIS | The Communities of Dylais & Onllwyn | 2 | 3035 | 1518 | 2.00 | 2900 | 1480 | 1.90 |
| 3 | GLYNNEATH | The East, Central and West Wards of the Community of Glynneath | 2 | 2892 | 1446 | 1.91 | 3050 | 1525 | 1.99 |
| 4 | BLAENGWRACH | The Community of Blaengwrach and the West Central Ward of the Community of Glynneath | 1 | 1857 | 1857 | 1.23 | 1850 | 1850 | 1.21 |
| 5 | CLYNE | The Community of Clyne and the South Ward of the Community of Resolven | 1 | 1334 | 1334 | 0.88 | 1500 | 1500 | 0.98 |
| 6 | RESOLVEN | The Abergarwedand North Wards of the Community of Resolven | 1 | 1462 | 1462 | 0.97 | 1390 | 1390 | 0.91 |
| 7 | PELENNA | The Community of Pelenna | 1 | 1093 | 1093 | 0.72 | 1100 | 1100 | 0.72 |
| 8 | TONNA | The Community of Tonna | 1 | 1674 | 1674 | 1.11 | 1700 | 1700 | 1.11 |
| 9 | BRYNCOCH SOUTH | The Bryncoch South Ward of the Community of Blaenhonddan | 2 | 2877 | 1439 | 1.90 | 3500 | 1750 | 2.29 |
| 10. | BRYNCOCH NORTH | The Bryncoch North Ward of the Community of Blaenhonddan | 1 | 1948 | 1948 | 1.29 | 2000 | 2000 | 1.31 |
| 11 | ABERDULAIS | The Aberdulais and Cilfrew Wards of the Community of Blaenhonddan | 1 | 1458 | 1458 | 0.96 | 1600 | 1600 | 1.05 |
| 12. | CADOXTON | The Cadoxton Ward of the Community of Blaenhonddan | 1 | 1185 | 1185 | 0.78 | 1200 | 1200 | 0.78 |
| 13 | DYFFRYN | The Community of Dyffryn Clydach | 1 | 2191 | 2191 | 1.45 | 2350 | 2350 | 1.54 |

NOTE: The entitlement (columns 7 and 10) is obtained by dividing the total ward electorate by the average number of electors per councillor in the Borough.

| WARD | | | 1980 | | | | 1985 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RHIF 1 | ENW 2 | DISGRIFIAD 3 | NIFER Y CYNGHORWYR 4 | ETHOLWYR 5 | ETHOLWYR: CYNGHORWYR 6 | CYNRYCHIOLWYR Y MAE HAWL IDDYNT 7 | AMCANGYFRIF O'R ETHOLWYR 8 | ETHOLWYR: CYNGHORWYR 9 | CYNRYCHIOLWYR Y MAE HAWL IDDYNT 10 |
| 14 | GOGLEDD COED-FFRANC | Ward y Gogledd yng Nghymdeithas Coed-ffranc | 1 | 1825 | 1825 | 1.21 | 1700 | 1700 | 1.11 |
| 15 | COED-FFRANC GANOL | Ward y Canol Dwyreiniol a Ward y Canol yng Nghymdeithas Coed-ffranc | 2 | 2924 | 1462 | 1.93 | 2700 | 1350 | 1.77 |
| 16 | GORLLEWIN COED-FFRANC | Ward y Gorllewin a Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Coed-ffranc | 1 | 1705 | 1705 | 1.13 | 1800 | 1800 | 1.18 |
| 17 | LLANILLTUD FACH | Wardiau'r Castell a Llanilltud Fach yng Nghymdeithas Castell-nedd | 2 | 3374 | 1687 | 2.23 | 3250 | 1625 | 2.13 |
| 18 | CEFNSAESON | Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt yng Nghymdeithas Castell-nedd | 2 | 2485 | 1243 | 1.64 | 2800 | 1400 | 1.83 |
| 19 | MOUNT PLEASANT | Wardiau Gnoll a Mount Pleasant yng Nghymdeithas Castell-nedd | 3 | 4170 | 1390 | 2.75 | 4000 | 1333 | 2.62 |
| 20 | PENRHIWTYN | Wardiau Melincryddan a Phenrhiwtyn yng Nghymdeithas Castell-nedd | 3 | 4815 | 1605 | 3.18 | 4550 | 1517 | 2.98 |
| 21 | DWYRAIN LLANSAWEL | Wardiau Craigydarren a Chwrt Sart yng Nghymdeithas Llansawel | 2 | 2492 | 1246 | 1.65 | 2500 | 1250 | 1.64 |
| 22 | GORLLEWIN LLANSAWEL | Wardiau Brynhyfryd a Shelone Wood yng Nghymdeithas Llansawel | 2 | 3084 | 1542 | 2.04 | 2950 | 1475 | 1.93 |
| | | | 34 | 51470 | Cyfartaledd 1514 | | 51990 | Cyfartaledd 1529 | |

NODER: Ceir nifer y cynrychiolwyr y mae hawl iddynt (colofnau 7 a 10) trwy rannu cyfanswm etholwyr y ward â nifer yr etholwyr (ar gyfartaledd) i bob cynghorydd yn y Fwrdeistref.

| WARD | | | 1980 | | | | 1985 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NO 1 | NAME 2 | DESCRIPTION 3 | NO OF COUNCILLORS 4 | ELECTORATE 5 | ELECTORS PER COUNCILLOR 6 | COUNCILLOR ENTITLEMENT 7 | ESTIMATED ELECTORATE 8 | ELECTORS PER COUNCILLOR 9 | COUNCILLOR ENTITLE-MENT 10 |
| 14 | COEDFFRANC NORTH | The North Ward of the Community of Coedffranc | 1 | 1825 | 1825 | 1.21 | 1700 | 1700 | 1.11 |
| 15 | COEDFFRANC CENTRAL | The East Central and Central Wards of the Community of Coedffranc | 2 | 2924 | 1462 | 1.93 | 2700 | 1350 | 1.77 |
| 16 | COEDFFRANC WEST | The West and West Central Wards of the Community of Coedffranc | 1 | 1705 | 1705 | 1.13 | 1800 | 1800 | 1.18 |
| 17 | LLANTWIT | The Castle and Llantwit Wards of the Community of Neath | 2 | 3374 | 1687 | 2.23 | 3250 | 1625 | 2.13 |
| 18 | CEFN SAESON | The Cefn Saeson and Crynallt Wards of the Community of Neath | 2 | 2485 | 1243 | 1.64 | 2800 | 1400 | 1.83 |
| 19 | MOUNT PLEASANT | The Gnoll and Mount Pleasant Wards of the Community of Neath | 3 | 4170 | 1390 | 2.75 | 4000 | 1333 | 2.62 |
| 20 | PENRHIWTYN | The Melyn rythan and Penrhiwtyn Wards of the Community of Neath | 3 | 4815 | 1605 | 3.18 | 4550 | 1517 | 2.98 |
| 21 | BRITON FERRY EAST | The Craig-y-darren and Cwrt Sart Wards of the Community of Briton Ferry | 2 | 2492 | 1246 | 1.65 | 2500 | 1250 | 1.64 |
| 22 | BRITON FERRY WEST | The Brynhyfryd and Shelone Wood Wards of the Community of Briton Ferry | 2 | 3084 | 1542 | 2.04 | 2950 | 1475 | 1.93 |
| | | | 34 | 51470 | Av 1514 | | 51990 | Av 1529 | |

NOTE: The entitlement (columns 7 and 10) is obtained by dividing the total ward electorate by the average number of electors per councillor per councillors in the Borough

ATODIAD B

BWRDEISTREF NEDD

CYNRYCHIOLAETH BRESENNOL Y CYNGOR BWRDEISTREF

| RHIF Y WARD<br>1 | TIRIOGAETH<br>2 | NIFER Y CYNGHORWYR<br>3 | ETHOLWYR 1980<br>4 | ETHOLWYR: CYNGHORWYR<br>5 | CYNRYCHIOLWYR Y MAE HAWL IDDYNT<br>6 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ward Gogledd Castell-nedd | 4 | 6900 | 1725 | 4.43 |
| 2 | Ward De Castell-nedd | 6 | 8313 | 1386 | 5.34 |
| 3 | Ward Llansawel, Castell-nedd | 4 | 5261 | 1315 | 3.38 |
| 4 | Plwyf Baglan Uchaf a Llanfihangel-ynys-Afan Uchaf | 1 | 1072 | 1072 | 0.69 |
| 5 | Plwyf Dyffryn Clydach | 1 | 2086 | 2086 | 1.34 |
| 6 | Plwyf Coed-ffranc | 4 | 6454 | 1614 | 4.15 |
| 7 | Plwyf Castell-nedd Uchaf | 2 | 3720 | 1860 | 2.39 |
| 8 | Plwyf Tonna | 1 | 2027 | 2027 | 1.30 |
| 9 | Plwyfi Y Clun, Castell-nedd Isaf a Resolfen | 2 | 2802 | 1401 | 1.80 |
| 10 | Plwyf Blaen-gwrach | 1 | 1014 | 1014 | 0.65 |
| 11 | Ward Onllwyn ym Mhlwyf Dulais Uchaf | 1 | 972 | 972 | 0.62 |
| 12 | Ward Blaendulais ym Mhlwyf Dulais Uchaf | 1 | 1940 | 1940 | 1.25 |
| 13 | Ward Y Creunant ym Mhlwyf Dulais Uchaf a Ward Y Creunant ym Mhlwyf Dulais Isaf | 1 | 1590 | 1590 | 1.02 |
| 14 | Ward Cil-ffriw ym Mhlwyf Blaenhonddan a Ward Aberdulais ym Mhlwyf Dulais Isaf | 1 | 1458 | 1458 | 0.94 |
| 15 | Ward Llangatwg ym Mhlwyf Blaenhonddan | 1 | 1185 | 1185 | 0.76 |
| 16 | Ward Bryn-coch ym Mhlwyf Blaenhonddan | 2 | 4569 | 2285 | 2.94 |
| | | 33 | 51363 | Cyfartaledd 1556 | |

NODER: Ceir nifer y cynrychiolwyr y mae hawl iddynt (colofn 6) trwy rannu cyfanswm etholwyr y ward â nifer yr etholwyr (ar gyfartaledd) i bob cynghorydd yn y Fwrdeistref.

SCHEDULE B

BOROUGH OF NEATH

EXISTING BOROUGH COUNCIL REPRESENTATION

| WARD NUMBER<br>1 | AREA OF LAND<br>2 | NO OF COUNCILLORS<br>3 | ELECTORATE 1980<br>4 | ELECTORS PER COUNCILLOR<br>5 | COUNCILLOR ENTITLEMENT<br>6 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | The Neath North Ward | 4 | 6900 | 1725 | 4.43 |
| 2 | The Neath South Ward | 6 | 8313 | 1386 | 5.34 |
| 3 | The Neath Briton Ferry Ward | 4 | 5261 | 1315 | 3.38 |
| 4 | The parish of Baglan Higher and Michaelston Higher | 1 | 1072 | 1072 | 0.69 |
| 5 | The parish of Dyffryn Clydach | 1 | 2086 | 2086 | 1.34 |
| 6 | The parish of Coedffranc | 4 | 6454 | 1614 | 4.15 |
| 7 | The parish of Neath Higher | 2 | 3720 | 1860 | 2.39 |
| 8 | The parish of Tonna | 1 | 2027 | 2027 | 1.30 |
| 9 | The parishes of Clyne, Neath Lower & Resolven | 2 | 2802 | 1401 | 1.80 |
| 10 | The parish of Blaengwrach | 1 | 1014 | 1014 | 0.65 |
| 11 | The Onllwyn Ward of the parish of Dulais Higher | 1 | 972 | 972 | 0.62 |
| 12 | The Seven Sisters Ward of the parish of Dulais Higher | 1 | 1940 | 1940 | 1.25 |
| 13 | The Crynant Ward of the parish of Dulais Higher and the Crynant Ward of the parish of Dulais Lower | 1 | 1590 | 1590 | 1.02 |
| 14 | The Cilfrew Ward of the parish of Blaenhonddan and the Aberdulais Ward of the parish of Dulais Lower | 1 | 1458 | 1458 | 0.94 |
| 15 | The Cadoxton Ward of the parish of Blaenhonddan | 1 | 1185 | 1185 | 0.76 |
| 16 | The Bryncoch Ward of the parish of Blaenhonddan | 2 | 4569 | 2285 | 2.94 |
| | | 33 | 51363 | Av 1556 | |

NOTE: The entitlement (column 6) is obtained by dividing the total ward electorate by the average number of electors per councillor in the Borough

PRODUCED IN WALES BY HMSO
REPROGRAPHIC DIVISION CARDIFF